**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1368
Ein cyf/Our ref MA/JJ/03213/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd, a anfonwyd ar ôl i'r Pwyllgor Deisebau ystyried P-06-1368, lle'r ydych yn rhannu'r ohebiaeth oddi wrth y deisebydd ac yn gofyn am atebion i'r cwestiynau a ofynnir yn ei ymateb.

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 13 Hydref, nid oes unrhyw fwriad i fachlud Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 oherwydd bod Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 wedi cael ei phasio. Cafodd hynny ei gydnabod yn llythyr y prif ddeisebydd at y Pwyllgor Deisebau ar 31 Gorffennaf.

Rwyf wedi darllen "Adroddiad Is-grŵp Rhyddid Gwybodaeth y Prosiect Hinsawdd ac Amgylchedd sy'n cael ei gynnal gan Uned Pro Bono Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd 2022/2023" gyda diddordeb. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ystyried diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 fel y maent yn gymwys i Gymru nac i gyflwyno rheoliadau cyfatebol ar gyfer Cymru. Er hynny, rwyf wedi rhoi'r adroddiad i fy swyddogion er mwyn iddynt gael ei ffeilio a'i gynnwys yn rhan o'n sylfaen dystiolaeth pe byddem yn mynd ati i ailystyried y sefyllfa yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i aelodau Is-grŵp Rhyddid Gwybodaeth y Prosiect Hinsawdd ac Amgylchedd sy'n cael ei gynnal gan Uned Pro Bono Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd am eu gwaith ar y mater hwn.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.